**AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL**

**3 Mehefin 2020**

Yn bresennol: Y Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Y Cynghorydd P Baker, y Cynghorydd Mrs D Clements, y Cynghorydd K Doolin, y Cynghorydd M Evans, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, y Cynghorydd M James, Mr G Jones, y Cynghorydd P Kidney, y Cynghorydd PJ Morgan, Y Cynghorydd R Owens, Dr R Plummer, y Cynghorydd A Wilcox, y Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland

(Cyfarfod Rhithwir: 10.30am – 1.15pm)

**1. Ymddiheuriadau**
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. Datgelu buddiant**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mai 2020 i'w cadarnhau a'u hawdurdodi.

Mewn perthynas â Chofnod 10 – Cymeradwyo Rheol Sefydlog 16 Contractau o ran yswiriant sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2020, nodwyd bod y gair “of” ar goll yn llinell gyntaf y penderfyniad Saesneg.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau ac awdurdodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mai 2020 yn ddarostyngedig i’r newid uchod.

**4. Materion yn Codi**

(a) Penodi Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau Cofnod 11
Gofynnwyd i gopi o fywgraffiadau’r ddau aelod gael eu dosbarthu i Aelodau'r Awdurdod wedi iddynt ddod i law.

**NODWYD.**

(b) Adolygiadau Datblygiad Personol (Cofnod 13)
Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd ei bod wedi cael saith Adolygiad Datblygiad Personol (PDR) cyflawn hyd yma. Ychwanegodd y byddai'r Pwyllgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau yn ystyried cynllun hyfforddi ar gyfer Aelodau cyn bo hir, felly byddai unrhyw gynlluniau cymorth personol pellach i helpu i lywio'r ddogfen honno yn cael eu croesawu.

Ychwanegodd y Cadeirydd fod y broses wedi bod yn ddidrafferth a phleserus a chynigiodd drefnu cyfarfod ar gyfer unrhyw Aelod a oedd am gwblhau ei PDR.

**NODWYD.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd wedi bod yn bresennol mewn unrhyw ddigwyddiadau ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod oherwydd y cyfyngiadau symud. Fodd bynnag, dywedodd fod yr Awdurdod wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ysgrifenyddiaeth Parciau Cenedlaethol Cymru ar 1 Ebrill 2020, a'i fod wedi cael yr anrhydedd o gadeirio cyfarfod o'r corff hwnnw ar 7 Mai 2020. Fel cam gweithredu yn deillio o'r cyfarfod, roedd wedi ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog yn gofyn am gyfarfod i drafod rheoli adnoddau ariannol Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i sicrhau darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol. Roedd hefyd wedi cael hyfforddiant Livestream ynghyd ag Aelodau eraill a staff yr Awdurdod.

Gorffennodd trwy ddiolch i'r Aelodau a'r staff am eu cefnogaeth barhaus yn yr amgylchiadau anodd presennol, a gobeithiai fod eu teuluoedd a'u ffrindiau'n cadw'n ddiogel.

**NODWYD.**

**6. Adroddiadau o gyfarfodydd amryw Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau a ganlyn o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried / er gwybodaeth.

(i) Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr 22 Ebrill 2020
(ii) Y Pwyllgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau 6 Mai 2020.

**PENDERFYNWYD** bod cofnodion y Panel a'r Pwyllgor a grybwyllwyd uchod yn cael eu mabwysiadu / derbyn.

**7. Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau**

Soniwyd ei bod yn ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol, o dan y Mesur Llywodraeth Leol, gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y byddai'n hynny'n ymarferol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi cynllun yn dangos sut y byddai'n cyrraedd y nodau llesiant a sut yr oedd wedi cymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn ei waith. Felly, er mwyn lleihau dyblygu, bwriad y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau hwn oedd cyflawni gofynion y ddau ddarn o ddeddfwriaeth trwy ddatblygu amcanion llesiant yr Awdurdod y gellid eu hystyried hefyd yn amcanion ar gyfer gwella.

Roedd Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau gwreiddiol yr Awdurdod 2020/21 i fod i fynd i gyfarfod Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 1 Ebrill 2020 i'w gymeradwyo; gohiriwyd y cyfarfod hwn oherwydd mesurau cysylltiedig â COVID-19. Ers y cyfnod hwnnw, roedd y ddogfen wedi'i diwygio i adlewyrchu rheoliadau a mesurau newydd i amddiffyn staff, cymunedau a'r cyhoedd yr oedd yn eu gwasanaethu.

Aeth y Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth ymlaen i egluro, oherwydd bod angen i'r Awdurdod allu ymateb yn effeithiol i amgylchiadau newidiol a hefyd ymateb i ganlyniadau tymor hwy, roedd Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2020/21 wedi'i rannu'n ddau. Roedd yr adran gyntaf yn seiliedig ar flaenoriaethau tymor byr a thymor canolig a oedd yn canolbwyntio ar ymateb yr Awdurdod i COVID-19 a’r cynllun adfer. Dull graddol o weithredu oedd yn yr adran hon a fyddai'n cynorthwyo'r Awdurdod – wrth i ffactorau a rheoliadau allanol newid – i fod yn ymatebol ac yn effeithiol yn ei ddull gweithredu, gan sicrhau ar yr un pryd fod diogelwch staff a defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei sicrhau yn ystod 2020/21. Byddai'n cynorthwyo'r Awdurdod i sicrhau bod ei gamau gweithredu yn helpu'r broses o adfer cymunedau a busnesau yn y Parc a'r ardal gyfagos yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig COVID-19.

Yn ail ran y cynllun roedd y blaenoriaethau a’r camau gweithredu tymor hir a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer 2020/21, ond a oedd yn parhau i fod yn berthnasol. Cynhwyswyd y rhain yn y cynllun corfforaethol ac adnoddau gwreiddiol. Efallai na fydd rhai gweithgareddau o fewn ffrydiau gwaith yn yr adran 'Gweithio Tuag at Amcanion Tymor Hir' yn cael eu cyflawni eleni ond byddent yn sail i gyflawni'r amcanion llesiant a’r effeithiau tymor hir yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Byddai gweithgareddau o dan ffrydiau gwaith yn destun adolygiad pellach yn ystod y flwyddyn i asesu a ydynt yn parhau i fod yn berthnasol neu a oes angen eu diweddaru i alinio â chynlluniau adfer.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddog am y gwaith sylweddol a wnaed i adolygu'r Cynllun, a oedd wedi'i gyflawni mewn cyfnod byr iawn. Roeddent yn cwestiynu a oedd yn ddigon realistig a dywedodd y Prif Weithredwr fod yna lawer o ffactorau anhysbys o hyd, ac y byddai'r Cynllun yn cael ei adolygu wrth i'r amgylchiadau newid.

Bu peth trafodaeth ynghylch ymateb yr Awdurdod i’r pandemig Covid-19, a chydnabu'r Prif Weithredwr yr anawsterau a gododd o ganlyniad i'r amgylchiadau sy'n newid yn gyson ond nododd fod yr Awdurdod yn ymateb i'r rhain fel y bo'n briodol, gan weithio'n agos gydag asiantaethau eraill.

Awgrymwyd rhai diwygiadau, megis cynnwys ymateb yr Awdurdod i Ddatganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru a bod gwahaniaeth cliriach yn cael ei wneud rhwng y 'ticiau' a oedd yn nodi cyfraniad yr Awdurdod i'r

nodau llesiant yn Atodiad 2 y Cynllun.  Cytunodd y swyddog i ymgorffori'r ddau welliant mewn adroddiadau yn y dyfodol.  Gofynnodd un Aelod a ellid ystyried cynnwys targedau â therfyn uwch ac is, yn hytrach na diwygio targedau.  Teimlai hefyd fod y Cynllun yn dangos bod yr Awdurdod yn wannach yn y meysydd a ganlyn: morol, datblygu economaidd a thwristiaeth, a diwylliant a’r Gymraeg.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2020/21.

**8. Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd**

Atgoffwyd yr aelodau, yn dilyn trafodaeth yn Fforwm Gweithwyr yr Awdurdod ym mis Mehefin 2019, y cyflwynwyd adroddiad yn amlinellu sut roedd yr Awdurdod yn ymateb i’r newid yn yr hinsawdd trwy leihau a dal a storio carbon ac addasu a lliniaru, i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref 2019 pan benderfynwyd y dylid paratoi Cynllun Gweithredu.

Yn dilyn gweithdy’r Aelodau ac ymgyngoriadau â staff, Aelodau ac aelodau Grŵp Cyfeirio Cynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol, cynhyrchwyd y ddogfen “Ymateb i’r Argyfwng Newid Hinsawdd (2020 - 2030) – ein camau gweithredu i gyflawni Cynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol 2020-2024” ac atodwyd ef i'r adroddiad i'w gymeradwyo gan yr Aelodau.

Soniwyd y byddai’r camau gweithredu o fewn y ddogfen yn cael eu prif ffrydio o fewn Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod a’r fframwaith perfformiad i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei fonitro a bod y camau gweithredu yn cael eu hystyried yn ganolog i waith yr Awdurdod.

Gan ddiolch i'r swyddog am ei hadroddiad, dywedodd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol ymgorffori'r newid mewn ymddygiad a ddeilliodd o’r cyfyngiadau symud yn sgil Covid-19 – yn enwedig y gostyngiad mewn teithio yn achos staff ac Aelodau trwy gynnal cyfarfodydd rhithwir. Cytunodd y Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth fod newid ymddygiad yn ganolog i’r ddogfen, a rhagwelwyd y gellid ychwanegu adran arall at yr adroddiad yn ei adolygiad blynyddol nesaf. Ychwanegodd Aelod arall ei bod yn bwysig cynnwys y gwersi nawr, yn hytrach nag edrych yn ôl ymhen chwe mis, a bod hyn yn berthnasol i Aelodau yn ogystal â staff yr Awdurdod.

Nododd Aelod arall y bu llawer o ganlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud ond nid oedd yn credu y gallai'r sefyllfa bresennol gael ei phortreadu fel un ddelfrydol oherwydd ei fod yn teimlo iddi greu rhwystr rhwng y cyhoedd a'r Awdurdod.  Fodd bynnag, roedd yn teimlo bod yr Awdurdod wedi darparu'r gwasanaeth gorau posibl yn yr amgylchiadau.

Gan ddychwelyd at y ddogfen, awgrymwyd y dylid tynnu'r dyddiadau o deitl y ddogfen gan y gallai'r rhain achosi dryswch.  Gofynnodd un Aelod

a oedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo carbon, fel y nodir yn adran 'Monitro' y ddogfen. Atebodd y swyddog nad oedd hi'n credu eu bod wedi'u cyhoeddi, gan nodi bod y pandemig Covid-19 wedi effeithio ar lawer o raglenni. Fodd bynnag, yn y cyfamser, byddai'r Awdurdod yn parhau i fesur ei berfformiad yn erbyn perfformiad y blynyddoedd blaenorol. Awgrymodd yr Aelodau y gallai Parciau Cenedlaethol Cymru bwyso ar Lywodraeth Cymru ar y mater hwn.

**PENDERFYNWYD** bod y ddogfen Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd 2020-2030 yn cael ei chymeradwyo yn amodol ar ddileu'r dyddiadau o'r teitl.

**9. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20**

Atgoffodd y Rheolwr Cyllid yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac fe'u gwahoddwyd i gyfrannu at y Datganiad drafft a oedd yn atodedig i'w adroddiad a llywio ei gynnwys.

Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys fframwaith llywodraethu'r Awdurdod o ran ei strwythurau gwneud penderfyniadau, yn ogystal â'r camau a gymerwyd mewn perthynas â'r materion llywodraethu sylweddol a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol ac felly roedd yr adroddiad hefyd yn nodi camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Roedd y Datganiad hefyd yn cynnwys adolygiad o effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, yn seiliedig ar egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Adolygwyd y Datganiad gan y Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol yn ei gyfarfod ym mis Chwefror ac roedd y sylwadau a wnaed wedi'u hymgorffori yn y Datganiad a oedd gerbron yr Awdurdod.

Gwnaeth yr Aelodau nifer o sylwadau ar y ddogfen, gan dynnu sylw at yr angen i gynnwys y Pwyllgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau yn adran Llywodraethu'r adroddiad, i adlewyrchu'r ymgysylltiad parhaus â phobl ifanc trwy greu Pwyllgor Ieuenctid, adroddiad a fyddai'n cael ei ystyried yn ddiweddarach yn y cyfarfod; a hefyd bod argymhellion yr Archwilwyr Mewnol wedi arwain at newidiadau i fformat y Gofrestr Risg ac i arferion mewn meysydd fel Iechyd a Diogelwch.

Cytunodd y Rheolwr Cyllid i ystyried y pwyntiau hyn a byddai'r Datganiad diwygiedig yn cael ei gyflwyno i gytuno arno mewn cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

**NODWYD.**

**10. Cymeradwyo Grantiau yn unol ag Adran 78 o'r Safonau Ariannol**
Soniwyd bod angen awdurdodiad yn unol ag Adran 76 o'r Safonau Ariannol (2020) a oedd yn nodi, lle'r oedd 'Cyfanswm Grant a Nawdd o dan unrhyw un cytundeb yn werth dros £10,000' bod yn rhaid cael cymeradwyaeth gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Ym mlwyddyn ariannol 2020/21 roedd un taliad yn y categori hwn ar hyn o bryd, sef taliad o £15,000 i Fforwm Arfordirol Sir Benfro i helpu i integreiddio a rheoli gweithgaredd arfordirol. Nodwyd amlinelliad o'r taliadau a wnaed, a'r gwaith a wnaed, yn yr adroddiad.

Roedd yr Aelodau'n hapus i gefnogi'r gwaith rhagorol a wnaed gan Fforwm Arfordirol Sir Benfro, ond roedd un Aelod eisiau gwybod mwy am y Fforwm a gofynnodd a ellid dosbarthu gwybodaeth am fanylion ei Fwrdd a'i Adroddiad Blynyddol. Cytunodd y Prif Weithredwr i wneud hyn, gan ychwanegu bod yr Awdurdod wedi cefnogi Fforwm Arfordirol Sir Benfro dros nifer o flynyddoedd ac awgrymodd y dylent wneud cyflwyniad i un o Bwyllgorau Adolygu'r Awdurdod ar y gwaith a wnaed o ganlyniad i'r cyllid.

**PENDERFYNWYD** bod y taliadau i Fforwm Arfordirol Sir Benfro yn cael eu cymeradwyo.

**11. Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
Atgoffwyd yr Aelodau fod cyflwyniad wedi'i wneud i'r Awdurdod ym mis Tachwedd 2018, yn dilyn presenoldeb Aelodau a Pharcmyn Ieuenctid yng Nghynhadledd Europarc. Roedd y cyflwyniad yn ymwneud â'r Maniffesto Pobl Ifanc, y ddogfen a baratowyd gan gynrychiolwyr pobl ifanc o bob rhan o Ewrop a'i chyflwyno i'r Gynhadledd. Roedd y ddogfen yn amlygu pryderon pobl ifanc ac yn awgrymu'r hyn y gellid ei wneud i fynd i'r afael â'r rhain, gan gynnwys galwad i bobl ifanc chwarae mwy o ran yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Soniwyd bod Tîm Darganfod yr Awdurdod wedi gweithio ar y cyd â Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc Cyngor Sir Penfro i ddatblygu a chyflawni gweithgaredd y Pwyllgor Ieuenctid hyd yma. Rhan o hyn oedd y penwythnos preswyl rhwng 13 ac 15 Mawrth 2020 ym Mhentre Ifan, ynghyd â chyfarfodydd ar-lein dilynol.

Roedd dau aelod o'r Pwyllgor, Carys a Matt, yn bresennol yn y cyfarfod a chafwyd trosolwg o'r penwythnos. Aethant ymlaen i ofyn i'r Awdurdod gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl, enwebu cynrychiolydd o blith yr Aelodau ar y Pwyllgor Ieuenctid ac ystyried parhau i gefnogi a chyllido'r Pwyllgor Ieuenctid yn y dyfodol. Gofynnwyd hefyd a allai'r Aelodau nodi unrhyw feysydd gwaith y gallai'r Pwyllgor gyfrannu atynt.

Roedd yr Aelodau'n gefnogol iawn i greu Pwyllgor Ieuenctid, ond roedd ganddynt nifer o sylwadau ar y Cylch Gorchwyl. Roeddynt yn credu bod

angen iddynt fod yn glir a oedd y Pwyllgor Ieuenctid yn is-bwyllgor i'r Awdurdod, nodi sut y byddai'r cyfarfod yn cael ei gadeirio, pwy fyddai'n darparu'r ysgrifenyddiaeth, sut y byddai costau llogi lleoliad yn cael eu talu ac ati, a hefyd cynnwys rhywbeth i hwyluso'r dewis iaith i bobl ifanc wrth fynd i breswylfeydd, gweithdai, ac ati.  Fodd bynnag, nid oedd yr Aelodau eisiau rhagnodi unrhyw newidiadau o'r fath, ac awgrymwyd bod y Pwyllgor Ieuenctid yn ystyried cynnwys y pwyntiau uchod ac y dylid dirprwyo cytundeb y Cylch Gorchwyl i'r Cadeirydd ac yna ei ddosbarthu i Aelodau'r Awdurdod.

O ran cynrychiolaeth o blith yr Aelodau ar y Pwyllgor, mynegodd yr Aelodau canlynol barodrwydd i gymryd rhan:
Y Cynghorydd P Harries, y Cynghorydd P Baker, y Cynghorydd M James, y Cynghorydd R Owens, Mrs S Hoss a Dr M Havard.

Roedd y cais olaf yn ymwneud â chefnogaeth a chyllid parhaus.  Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd Pwyllgorau'r Awdurdod fel arfer yn cael cyllideb, er bod adnoddau a chefnogaeth yn cael eu darparu i alluogi'r Pwyllgor i weithredu.  Gellid gwneud ceisiadau am arian i'r Awdurdod yn ôl yr angen.  Roedd rhai Aelodau, fodd bynnag, yn dymuno neilltuo cyllideb fach, tua £500, i'r Pwyllgor Ieuenctid, a chynigiwyd ac eiliwyd hyn.  Yna cynigiwyd gwelliant bod y Pwyllgor Ieuenctid yn cyflwyno cynigion wedi'u costio ar gyfer cyllid ac eiliwyd hyn hefyd.  Pleidleisiwyd ar y gwelliant a chafodd ei dderbyn.

**PENDERFYNWYD:**
1) Dirprwyo'r Cylch Gorchwyl Pwyllgor Ieuenctid PCNPA i'r Cadeirydd gytuno arno, a'i ddosbarthu i'r Aelodau er gwybodaeth
2) Awdurdodi'r Aelodau canlynol i fynychu'r Pwyllgor Ieuenctid: Y Cynghorydd P Harries, y Cynghorydd P Baker, y Cynghorydd M James, y Cynghorydd R Owens, Mrs S Hoss a Dr M Havard.
3) Gofyn i'r Pwyllgor Ieuenctid gyflwyno cynigion costiedig ar gyfer cyllid.

**12. Diwygiad Dros Dro Arfaethedig i Reol Sefydlog 5: Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd**

Atgoffwyd yr Aelodau fod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 wedi cael eu pasio'n ddiweddar. Roedd y rhain yn darparu fframwaith fel y gallai'r Awdurdod gynnull cyfarfodydd rhithwir o'r Awdurdod a'i Bwyllgorau gan ddefnyddio meddalwedd fideogynadleddau a / neu gynadledda ffôn.

Er bod y Rheoliadau'n caniatáu i bob awdurdod lleol ohirio cynnull eu Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol dros gyfnod y Rheoliadau, roedd yr Awdurdod wedi cynnal ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn union cyn y cyfarfod hwn gan fod tymor y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn dod i ben. Roeddynt wedi cael eu henwebu i'w hail-ethol yn ddiwrthwynebiad, ac felly ail-etholwyd y ddau yn unol â Rheolau Sefydlog yr Awdurdod.

Roedd Rheol Sefydlog 5 yn nodi'r weithdrefn bleidleisio ar gyfer ethol Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion, a oedd yn cynnwys y gofyniad i bleidleisio trwy bleidlais gudd pan fyddai mwy nag un enwebiad. Pan oedd yr holl Aelodau yn bresennol yn yr un ystafell, byddai papurau pleidleisio yn cael eu dosbarthu, eu casglu a'u cyfrif. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau presennol, ni fyddai'r weithdrefn hon yn bosibl ac argymhellwyd ychwanegu Rheol Sefydlog i ganiatáu i bleidleisiau gael eu bwrw trwy e-bost, ffôn neu neges destun at y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd, fel y nodir yn y adroddiad.

Cytunodd yr aelodau fod rhesymau da dros gynnal pleidlais gudd o dan yr amgylchiadau hyn a chynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad i ddiwygio Rheol Sefydlog 5 dros dro mewn perthynas â'r weithdrefn ar gyfer ethol Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion i Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i Bwyllgorau. Fodd bynnag, roedd rhai Aelodau o'r farn y gallai pleidlais o'r fath gael ei gwneud yn hawdd trwy ddangos dwylo a chynigiwyd ac eiliwyd diwygiad i'r perwyl hwn, ond collwyd y bleidlais. Syrthiodd y gwelliant felly, a chynhaliwyd pleidlais ar y cynnig gwreiddiol a derbyniwyd y cynnig.

**PENDERFYNWYD,** tra byddai Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn parhau mewn grym, fod Rheol Sefydlog 5 mewn perthynas â'r weithdrefn ar gyfer ethol Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion i Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i Bwyllgorau yn cael ei diwygio dros dro fel y nodir yn yr adroddiad.

[Hysbysodd y Cadeirydd y cyfarfod ei fod, yn anffodus, yn gorfod mynychu angladd ac felly cyflwynodd ei ymddiheuriadau a gadael y cyfarfod. Cymerodd y Dirprwy Gadeirydd y Gadair.]

**13. Rheoli Llystyfiant ar Lwybr yr Arfordir a'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Mewndirol yn ystod y cyfyngiadau symud**

Soniwyd bod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 wedi dod i rym ar 26 Mawrth gan roi dyletswydd ar amrywiol gyrff, gan gynnwys Awdurdod y Parc Cenedlaethol, i gau rhai llwybrau cyhoeddus a thir er mwyn amddiffyn rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws. Mewn ymateb, roedd Llwybr yr Arfordir wedi cau ac roedd y gwaith cynnal a chadw rheolaidd y byddai'r Awdurdod fel arfer yn ei wneud yr adeg hon o'r flwyddyn wedi bod yn gyfyngedig.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y broses raddol o ddod â staff allweddol yn ôl i weithio yn benodol i reoli llystyfiant. Roedd y gwaith hwn yn hanfodol er mwyn cynnal y rhwydwaith lleol o lwybrau a oedd ar gael i drigolion lleol wneud ymarfer corff 'ar garreg eu drws' yn ogystal â pharatoi Llwybr yr Arfordir i ymwelwyr ar ôl i'r

cyfyngiadau symud presennol yn sgil Covid-19 gael eu llacio. Fodd bynnag, y flaenoriaeth gyffredinol oedd parhau i gadw staff APCAP yn ddiogel, a chynhaliwyd asesiadau risg cyhoeddus a chynhwysfawr.

Gan ddiolch i'r Cyfarwyddwr am ei adroddiad, cymeradwyodd yr Aelodau'r gwaith a wnaed ac roeddent yn falch o ddarllen bod y system rheoli swyddi a gyflwynwyd y llynedd wedi bod mor ddefnyddiol ac yn fuddsoddiad gwerth chweil. Holodd un Aelod pam yr oedd Llwybr yr Arfordir ar gau pan roedd llwybr Gŵyr, er enghraifft, yn dal ar agor. Atebodd y Prif Weithredwr fod hwn yn fater cymhleth, ond roedd nifer y bobl y gellid eu disgwyl ar Lwybr Arfordir Sir Benfro yn fwy o lawer nag ar lwybr Gŵyr. Teimlai mai'r penderfyniad hwnnw, a wnaed mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, oedd yr un iawn i amddiffyn defnyddwyr a chymunedau lleol.